Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Fframwaith ar gyfer Ardaloedd Adfywio

Hydref 2010

ISBN 978 0 7504 5795 8
© Hawlfraint y Goron Hydref 2010
WAG10-10212
F3771011

Rhagair

Ym mis Mehefin, eglurais yn fras fy uchelgais ar gyfer Adfywio yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu Fframwaith clir a fyddai'n tywys y dull partneriaeth yr ydym wedi ymrwymo iddo yn yr Ardaloedd Adfywio ac yn adeiladu ar y dull hwnnw.

Rydym ni'r Llywodraeth yn benderfynol o wella ffyniant a lles ym mhob cwr o Gymru ac o wneud hynny mewn ffordd sy'n deg ac sy'n hybu cydraddoldeb. Mae egwyddor cynaliadwyedd hefyd yn sail i'n gwaith drwy'r Llywodraeth. Rwyf am weld yr egwyddorion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwaith ar Ardaloedd Adfywio. Yr wyf yn arbennig o benderfynol y dylai ein gwaith gefnogi cyfleoedd i wella rhagolygon bywyd i'n plant a'n pobl ifanc mwyaf di-fraint.

Rydym wedi bod yn gwireddu'r ymrwymiadau adfywio sydd yn nogfen Cymru'n Un ers llunio'r Llywodraeth hon. Yn benodol, rydym wedi cynnal rhaglen Blaenau'r Cymoedd a rhaglen Môn a Menai ac wedi lledaenu cynlluniau tebyg sydd wedi'u seilio ar ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru.

Yn awr, mae'n bryd inni ystyried y sefyllfa. Mae angen inni sicrhau ein bod yn dysgu yn sgil yr arferion adfywio gorau a'n bod yn adeiladu ar arferion arloesol sydd wedi'u datblygu yng Nghymru. Nid yw'r ddogfen hon yn newid ein polisi. Yn hytrach, mae'n gosod fframwaith gwireddu cliriach i bawb sy'n ymwneud â gwaith adfywio. Mae gennyf ymrwymiad i Lywodraeth agored, dryloyw a chynhwysol. Dyma un o'r rhesymau dros gyhoeddi'r Fframwaith hwn ar gyfer Ardaloedd Adfywio. Rwyf am i'r ddogfen hon gynnig Fframwaith a fydd yn tywys camau ymarferol er mwyn inni allu rhoi'r egwyddorion hyn ar waith.

Mae'r Fframwaith yn sôn am ein hymrwymiad i fodel adfywio strategol ac integredig. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn sicrhau bod ein gwaith mewn Ardaloedd Adfywio'n ychwanegu gwerth at ymdrechion ehangach. Elfen ganolog o hyn fydd cydweithio.

Yn fwy cyffredinol, rwyf am feithrin ymagwedd Lywodraeth-gyfan at adfywio yn y Llywodraeth hon. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwaith a wneir o fewn fy mhortffolio'n cael ei integreiddio â gwaith adrannau eraill.

Wrth i gyllidebau cyhoeddus grebachu, mae'n bwysicach nag erioed inni gyfleu ein polisïau'n glir a chydlynu ein gwaith yn fewnol a chyda'n partneriaid er mwyn i'n holl fuddsoddi gael y dylanwad mwyaf posibl.

Jocelyn Davies AC
Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio

Cynnwys

1.	**Cyflwyniad**	**1**
2.	**Ardaloedd Adfywio: dysgu o brofiad**	**3**
3.	**Ardaloedd Adfywio: fframwaith ar gyfer buddsoddi a gweithgarwch yn y dyfodol**	**6**
4.	**Y camau nesaf**	**10**
Atodiad 1: Adeiladu ar lwyddiant, astudiaethau achos		**12**

1. Cyflwyniad

Beth yw diben y Fframwaith hwn?

Mae'r Fframwaith hwn yn adeiladu ar y Datganiad Uchelgais ar gyfer Adfywio. Ei nod yw sicrhau eglurdeb ynglŷn â'n dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio yn y dyfodol, o fewn cyd-destun gweithredu ehangach gan y Llywodraeth. Mae'n newid mawr o ran gwireddu cynlluniau ar y cyd mewn ffordd gynhwysol er mwyn sicrhau bod ein buddsoddi mewn Ardaloedd Adfywio'n effeithiol, yn osgoi dyblygu ac yn ychwanegu gwerth.

Beth yw Adfywio?

Mae a wnelo adfywio â phobl ac â lleoedd. Nod adfywio yw creu lleoedd cynaliadwy yn y tymor hir er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y mannau hynny ac yn eu cyffiniau.

Mae'r term adfywio'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, o adnewyddu llecynnau trefol yn ffisegol er mwyn gwella'u hyfywedd economaidd, cynnal eu natur unigryw a rhoi sylw i fethiannau'r farchnad, i weithio gyda phobl yn eu cymunedau er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol amddifadedd. Bydd y math hwn o beth yn digwydd ledled Cymru drwy gyfrwng gwahanol sefydliadau a phartneriaethau. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad nifer o raglenni sydd â'r nod penodol o gefnogi adfywio, o Gymunedau yn Gyntaf i'r Cynllun Datblygu Gwledig. Byddwn hefyd yn buddsoddi ar draws ystod o adrannau er mwyn sbarduno adfywio, ac mae lle i wneud rhagor.

Nid yw'r ddogfen hon yn sôn am ddull Llywodraeth y Cynulliad o weithio yn ein gweithgareddau adfywio ehangach. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar Ardaloedd Adfywio. Serch hynny, daeth yn amlwg bod angen ymagwedd fwy cydlynol a chyson er mwyn datblygu'r gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar adfywio ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

Ardaloedd Adfywio

Mae'r Fframwaith hwn yn edrych yn benodol ar ein dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio, dull sy'n cael ei dywys gan y portffolio Tai ac Adfywio.

Nod yr Ardaloedd Adfywio yw mynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn mannau sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, a hynny o ran yr economi ac o ran lles, er mwyn gwella'u perfformiad. Drwy fuddsoddi mewn ardaloedd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, ein nod fydd gwella ffyniant a lles yng Nghymru drwyddi draw. Ein nod fydd manteisio ar gyfleoedd buddsoddi a fydd yn arwain at ddatblygu cynaliadwy mewn canolfannau trefol a gwledig ledled Cymru.

Ystyriaethau Strategol

Mae tri chyd-destun sy'n arbennig o bwysig a pherthnasol i Adfywio ar hyn o bryd:

- Ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree sydd wedi dangos bod yr argyfwng ariannol byd-eang diweddar a'r dirwasgiad yn ei sgil wedi gwneud mwy o niwed o safbwynt cymharol i'n cymunedau ni, a'r rheini eisoes yn gymunedau sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf. Nid yw holl effeithiau'r dirwasgiad i'w gweld eto, oherwydd bydd angen amser i'r rhain dreiddio drwy'r system a chael eu mesur. Bydd angen inni gadw'r hyblygrwydd i allu ymateb i'r heriau a fydd yn codi.
- Bydd y cyfyngiadau presennol ar arian yn y sector cyhoeddus, a adlewyrchir yn benodol yn Arolwg Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r diwygiadau lles, yn effeithio ar ein hadnoddau a hefyd ar anghenion pobl fwyaf di-fraint Cymru. Bydd angen inni adolygu ein dull o weithio yng ngoleuni'r newidiadau hyn, a sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl arian a werir yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- *Adnewyddu Economaidd: cyfeiriad newydd.* Bydd angen inni goleddu'r egwyddorion sy'n ganolog i'r ymagwedd Lywodraeth-gyfan hon at economi Cymru, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir yn ei sgil. Rhai o'r pethau sydd o bwys arbennig i adfywio yw'r rôl alluogi i Lywodraeth, arddel ymagwedd gytbwys at ddatblygu cynaliadwy, a chanolbwyntio ar seilwaith yr 21ain Ganrif.

2. Ardaloedd Adfywio: dysgu drwy brofiad

Datblygu'r Ardaloedd Adfywio hyd yn hyn

Dros y pedair blynedd diwethaf, ein blaenoriaeth fu gwireddu'r ddau ymrwymiad yn nogfen 'Cymru'n Un' sy'n ymwneud ag adfywio:

- *Byddwn yn parhau â rhaglenni adfywio allweddol ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn a Menai.*

Mae'r ddwy raglen, sef y patrwm ar gyfer yr Ardaloedd Adfywio, yn dal ar waith.

- *Byddwn yn sefydlu mentrau integredig a thrawsbynciol gyda'r nod o sicrhau datblygu economaidd ac adfywio, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel - bydd modelau presennol Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Môn Menai yn enghreifftiau o arfer da.*

Rydym wedi creu pum Ardal Adfywio arall: Arfordir Gogledd Cymru, Cymoedd y Gorllewin, Abertawe, Aberystwyth a'r Barri.

Yr uchelgais hwn sydd wedi sbarduno datblygu'r Ardaloedd Adfywio. Seilir model yr Ardaloedd Adfywio ar y gred y gall ymdrech gydlynol a buddsoddi mewn adfywio ardal wella ffyniant yr ardal honno yn ogystal ag ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Gan fod adnoddau cyhoeddus yn brin a'n bod wedi ymrwymo i greu cenedl fwy cydradd, bydd yr Ardaloedd Adfywio'n targedu ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i weddnewid cyfleoedd bywyd pobl sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf di-fraint.

Wrth fynd ati yn yr Ardaloedd Adfywio, y nod yw bod yn gynhwysol. Ym mhob ardal, sefydlwyd Bwrdd Ardal Adfywio i dywys y gweithgarwch. Mae'r Byrddau'n cynnwys awdurdodau lleol, sy'n bartneriaid sylfaenol, yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Cadeirir y Byrddau gan Lywodraeth y Cynulliad ac rydym wedi clustnodi timau Ardaloedd Adfywio i gefnogi'r gweithgarwch ym mhob ardal. Cyfrifoldeb y Bwrdd Adfywio Ardal fydd datblygu Cynllun Strategol a Chynllun Buddsoddi Blynyddol a dangos sut y gellir gwireddu'r rhain. Rhaid i'r Gweinidog gymeradwyo'r Cynllun Strategol, y Cynllun Buddsoddi a'r prosiectau gwireddu, gan gynnwys dyraniad cyffredinol yr arian, ar gyfer pob ardal.

Nod model yr Ardaloedd Adfywio yw integreiddio adfywio â gweithgareddau eraill sy'n digwydd mewn ardal, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, a gwaith cyffredinol y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Mae arian yr Ardaloedd Adfywio wedi'i ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau a'r rheini wedi'u seilio ar ganfod atebion lleol i broblemau lleol. Ar gyfer prosiectau cyfalaf y mae'r rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael, ond darperir swm cyfyngedig o arian refeniw hefyd.

Mae'r buddsoddi gan adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi amcanion polisi ehangach wedi bod yr un mor bwysig. Mae buddsoddi gan APADGOS i wella'r

ddarpariaeth dysgu mewn Ardaloedd Adfywio megis y Parth Dysgu yng Nglynebwy a Chanolfan Da Vinci ar gyfer y Celfyddydau ac Arloesi ym Mangor yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella rhagolygon cymunedau lleol. Mae'r dull a ddefnyddir yn yr Ardaloedd Adfywio hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r pethau hynny sy'n dylanwadu ar iechyd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Cyfle i ystyried

Ar ôl tair blynedd o ddatblygu dull yr Ardaloedd Adfywio a'i roi ar waith, mae'n adeg dda inni ystyried ein llwyddiannau a sicrhau ein bod yn dysgu yn sgil ein profiadau.

Rydym hefyd yn wynebu cyfnod pan fydd y gyllideb o dan bwysau sylweddol. Wrth inni benderfynu sut mae blaenoriaethu lefelau is o fuddsoddi yn y dyfodol, mae'n hollbwysig inni deimlo'n hyderus ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl.

Mae'r saith Ardal Adfywio yng Nghymru, pob un ohonynt wedi cyrraedd gwahanol gam yn ei datblygiad a phob un ohonynt a'i nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol unigryw ei hun, wedi cynnig cronfa gyfoethog o brofiadau inni ddysgu ohoni.

Dros gyfnod o dri mis, rydym wedi cynnal adolygiad desg o'r dystiolaeth, wedi ystyried ein profiadau ni'n hunain ac wedi cynnal nifer o weithdai a thrafodaethau ledled Cymru. Mae ystod eang o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, o'r sector preifat ac o'r trydydd sector wedi cyfrannu at hyn. Nid ydym wedi cyrraedd pawb ond rydym wedi cael trawstoriad eang o safbwyntiau, profiad ac arbenigedd sydd wedi bod yn sail i ddatblygu'r Fframwaith hwn.

Adeiladu ar lwyddiannau

Mae'n amlwg bod yr Ardaloedd Adfywio wedi sicrhau manteision i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny a bod modd defnyddio dull seiliedig-ar-ardal i gysylltu gwelliannau ffisegol â manteision ehangach i gymunedau. Mae anghenion datblygu cynaliadwy mewn gwahanol rannau o Gymru a'r cyfleoedd ar gyfer hynny'n amrywio'n sylweddol ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y gwahanol flaenoriaethau ym mhob Ardal. Mae hyn yn cefnogi'r pwyslais rydym wedi'i roi ar ymwneud â phartneriaid lleol er mwyn datblygu atebion lleol a all fanteisio ar gyfleoedd lleol.

Mae astudiaethau achos o'r gweithgarwch mewn Ardaloedd Adfywio yn Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru ac Ardal Adfywio Abertawe yn dangos rhywfaint o'r manteision sy'n dechrau ymddangos (gweler Atodiad 1). Mae hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y Tai Amlfeddiannaeth a datblygu adeiladau gwag yn y Rhyl i'w defnyddio unwaith eto, datblygu Canolfan Dysgu ym Mae Colwyn a gwella'r Glannau yn Abertawe. Mae'r ddwy astudiaeth achos yn dangos sut mae Ardaloedd Adfywio wedi defnyddio adnoddau Llywodraeth y Cynulliad yn llwyddiannus i ddenu buddsoddiadau ychwanegol sylweddol.

Drwy annog buddsoddi sy'n seiliedig ar ardal, mae rhaglenni arloesol a hynod lwyddiannus wedi cael eu datblygu yn yr Ardaloedd Adfywio hefyd y gellid eu lledaenu drwy Gymru. Er mai yn yr Ardaloedd Adfywio y braenarwyd y tir gyda'r

rhaglenni hyn, maent yr un mor berthnasol i ardaloedd eraill Tair enghraifft o hyn (y cyfeirir atynt yn fanwl yn Atodiad 1) yw pecynnau i2i a Medru, Arbed a Pharu Swyddi.

Gwneud pethau'n well

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi tynnu sylw hefyd at sawl ffordd o wella'n dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio.

Neges gref gan bartneriaid yw bod angen mynd ati mewn ffordd fwy cydlynol ar y lefel genedlaethol er mwyn rhoi cyfeiriad clir ac osgoi dyblygu'n lleol. Mae ein partneriaid yn galw am fynd ati mewn ffordd fwy integredig i adfywio yn ei ystyr ehangach gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb ac ar gyfiawnder cymdeithasol.

Roedd tystiolaeth hefyd o'r potensial i ddefnyddio buddsoddi cyfalaf yn fwy effeithiol er budd pobl leol a'r cymunedau sy'n byw yn yr ardal honno ac yn ei chyffiniau. Mae hyn yn berthnasol i fuddsoddi cyfalaf yn yr Ardaloedd Adfywio, ond mae'n berthnasol y tu hwnt i'r ardaloedd hynny hefyd, gan bwysleisio unwaith eto bod angen edrych ar botensial adfywio buddsoddiadau nad ydynt yn canolbwyntio ar adfywio.

Rydym yn derbyn yr adborth hwn yn llwyr, ac rydym yn benderfynol o feithrin ymagwedd Lywodraeth-gyfan ar lefel genedlaethol. Mae angen inni gydlynu ein rhaglenni adfywio ym mhob rhan o'r llywodraeth i sicrhau trefn syml yn lleol, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian drwy gyfrwng darpariaeth effeithlon ac effeithiol. Dylai'r dull partneriaeth mewn Ardaloedd Adfywio sicrhau mwy o gydlynu'n lleol - ond rhaid inni hefyd sicrhau mwy o gydlynu ar draws meysydd polisi yn genedlaethol.

Gofynnodd sefydliadau allanol hefyd am gael mwy o eglurdeb ynglŷn â'r Ardaloedd Adfywio - beth maent yn ceisio'i gyflawni, sut y dynodir yr ardaloedd a sut y dyrennir yr arian. Nod cyhoeddi'r Fframwaith hwn yw mynd i'r afael â'r pryderon hyn a chynnig eglurdeb a thryloywder ynglŷn â'r Ardaloedd Adfywio.

Roedd y dystiolaeth a'r adborth yn pwysleisio bod yr Ardaloedd Adfywio a'u hardaloedd cyffiniol yn dibynnu ar ei gilydd, er enghraifft o ran cyfleoedd am waith, ac na ddylid anwybyddu hynny.

Mae'r Bennod nesaf yn dangos sut yr ydym wedi gwrando ar yr hyn y mae ein partneriaid wedi dweud wrthym ac wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael er mwyn gwella eto ein dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio.

3. Ardaloedd Adfywio: fframwaith ar gyfer buddsoddi a gweithgarwch yn y dyfodol

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio mewn ffordd agored a thryloyw. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein partneriaid yn cynorthwyo i lunio, ac felly'n berchen ar y broses ariannu a'r meini prawf sy'n sail ar gyfer dyrannu adnoddau Llywodraeth y Cynulliad, a'u bod yn deall y broses honno.

Mae gan bob un o'n Hardaloedd Adfywio ymrwymiadau ariannu sydd wedi'u cyfyngu o ran amser. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i benderfynu ynglŷn â'r rhesymwaith, y meini prawf a'r systemau. Felly, pan fydd yr arian ar gael, gallwn wneud y canlynol gyda'n gilydd:

- Dewis yr ardaloedd.
- Penderfynu ynglŷn â dyrannu adnoddau ac amserlenni.
- Cytuno ynglŷn â chanlyniadau.
- Monitro'r cynnydd o'i gymharu â chanlyniadau a diwygio penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi os bydd angen.
- Gwerthuso llwyddiant.

Beth rydym am ei gyflawni mewn Ardaloedd Adfywio?

Ar y lefel uchaf, nod Ardaloedd Adfywio yw mynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb sydd rhwng ardaloedd yng Nghymru. Drwy ganolbwyntio'n hymdrechion yn y mannau sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, a hynny o ran yr economi ac o ran lles, gobeithiwn wella'u perfformiad. Drwy wneud hyn, ein nod fydd gwella ffyniant a lles yn gyffredinol yng Nghymru drwyddi draw.

Yn y Datganiad Uchelgais ar gyfer Adfywio, nodwyd y canlyniadau cyffredinol iawn y dymunwn i bob Ardal Adfywio'u cyflawni:

- Gwella ffyniant a lles y gymuned gyfan.
- Symud tuag at gymunedau carbon isel.
- Gwella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc.

Mae'r rhain yn gyson â'n blaenoriaethau cenedlaethol ni'r Llywodraeth.

Penderfynir yn lleol sut y cyflawnir hyn ym mhob Ardal Adfywio a disgrifir hynny yn y Cynlluniau Strategol a'r Cynlluniau Buddsoddi ar gyfer yr ardaloedd hynny. Bydd sut mae pob Bwrdd Adfywio Ardal yn penderfynu pa feysydd a fydd yn flaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw'r ardal honno, ei dyheadau a'r cyfleoedd penodol y gall adeiladu arnynt.

Egwyddorion

Ein rôl ni'r Llywodraeth yw galluogi partneriaid cenedlaethol a lleol i ddod at ei gilydd i gynllunio a darparu atebion i'r heriau yn eu hardal. Weithiau, ond nid bob tro, bydd hyn yn golygu darparu arian ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a werir mewn ardal eisoes.

Cynigiwn mai dyma'r egwyddorion a ddylai sbarduno gweithgarwch a buddsoddi yn y dyfodol wrth fynd ati yn yr Ardaloedd Adfywio:

1. Pwrpas clir

Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau o ran lles ac ansawdd bywyd yn y tymor hir ar gyfer y bobl fwyaf di-fraint; ymagwedd ymarferol at ddatblygu cynaliadwy. Drwy ganolbwyntio ar hyn, bydd gofyn inni edrych ar anghenion unigol yn eu crynswth - gan gynnwys cyflogaeth, tai, addysg, iechyd meddwl a chorfforol ac ansawdd yr amgylchedd. Ni fyddwn ond yn buddsoddi os gellir cyflwyno dadl gredadwy y bydd ein buddsoddiadau'n gwella lles y tlotaf.

2. Canolbwyntio ar ardal

Byddwn yn canolbwyntio'n hadnoddau ar yr ardaloedd lle ceir crynodiadau cryf o amddifadedd sy'n cyfiawnhau gweithredu dwys y tu hwnt i'r hyn y mae polisïau cenedlaethol yn darparu ar ei gyfer a lle bydd y dystiolaeth yn awgrymu mai gweithredu ar sail ardal, i bob golwg, fyddai fwyaf effeithiol. Ein nod fydd sicrhau'r cyfleoedd gorau i ardaloedd lle mae crynodiadau mawr o amddifadedd ar hyn o bryd a chysylltu'r bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny â'r cyfleoedd hyn.

3. Gwerth ychwanegol a rhesymwaith dros ymyrryd

Byddwn yn buddsoddi'n hadnoddau lle byddant yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at waith pobl eraill ac at ein polisïau cenedlaethol ni'n hunain sy'n ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd. Rydym am sicrhau bod ein harian yn gwneud mwy na dim ond disodli buddsoddi gan eraill. Mae gan ffynonellau ariannu sy'n perthyn mwy i'r brif ffrwd gyfraniad i'w wneud; rhaid i'r arian o'r ffynonellau hynny ddod o flaen unrhyw fuddsoddi ychwanegol mewn Ardaloedd Adfywio a rhaid iddo danategu'r buddsoddi hwnnw. Byddwn yn sicrhau bod rhesymwaith clir ar gyfer ein hymyrryd, er enghraifft er mwyn:

- Mynd ar drywydd caffael ar lefel genedlaethol.
- Cydlynu rhwng sawl sefydliad.
- Defnyddio ein harbenigedd penodol.
- Cynorthwyo i ddenu buddsoddi ychwanegol.

4. Sybsidiaredd

Ein nod fydd noddi gweithgarwch adfywio ar y raddfa fwyaf lleol a hynny'n gyson â sicrhau canlyniadau. Rhagwelwn y bydd hyn yn aml yn golygu y bydd gofyn i

awdurdodau lleol ysgwyddo'r rôl arwain. Ym mhob ardal ac ar gyfer pob prosiect, bydd yn bwysig ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain yn lleol.

5. Arloesi

Byddwn yn cefnogi arloesi a hefyd yn parhau i ddefnyddio'r arferion adfywio gorau yng Nghymru, ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Byddwn yn agored i ddulliau newydd o weithio, yn annog gwerthuso gonest ac yn cefnogi lledaenu prosiectau a rhaglenni ymhellach pan ddangosir eu bod yn gweithio.

6. Ysgogi adfywio hunangynhaliol

Byddwn yn ceisio buddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau adfywio cynaliadwy, drwy ddatblygu'r sector preifat, mentrau cymdeithasol a mudiadau eraill y trydydd sector.

Mae gennym ni'r Llywodraeth, wrth inni weithio gyda'n partneriaid, gyfrifoldeb i hwyluso hyn drwy ei gwneud mor rhwydd ag y bo modd i'r sector preifat ac i gymdeithas sifil ymgysylltu â'r drefn. Rydym yn arbennig o awyddus i annog twf mentrau cymdeithasol.

7. Cydweithredu

Sylweddolwn mai un o blith nifer o chwaraewyr yw Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio'n galed i fachu ar gyfleoedd a gwella bywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn Ardaloedd Adfywio. Byddwn yn gweithio fel partner cydradd gydag eraill sy'n rhannu ein nodau, a byddwn yn glir ynghylch yr hyn sydd gennym ni, a ninnau'n Llywodraeth genedlaethol, i'w gynnig i unrhyw bartneriaeth.

Byddwn yn gweithio'n glos gydag awdurdodau lleol, y mae ganddynt fandad democrataidd i weithredu'n lleol, a dyletswyddau statudol i danategu lles cymdeithasol ac economaidd eu cymunedau. Mae gan awdurdodau lleol gysylltiadau cryf â sefydliadau, unigolion a chymunedau lleol, a gallant eu cyrraedd a meithrin perthynas â hwy.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y GIG, ysgolion a phrifysgolion, yn ogystal â'r sector preifat, cymdeithas sifil a chymunedau.

Byddwn yn defnyddio dull o weithio'r Ardaloedd Adfywio i'n cynorthwyo i wireddu amcanion ehangach, megis hybu cyfle cyfartal, troi at economi sy'n rhad ar garbon, cynnal natur unigryw Cymru ac anadlu bywyd i gyfoeth ei threftadaeth ddiwylliannol. Bydd ein hymagwedd at newid i economi rad ar garbon drwy'r Ardaloedd Adfywio'n canolbwyntio yn gyntaf ac yn bennaf ar effeithlonrwydd ynni, oherwydd ei fod yn cynnig yr enillion lles gorau yn y fan a'r lle, yr arbedion mwyaf cost-effeithiol o ran carbon, yr ysgogiad gorau i gyflogaeth leol, a'r budd cymdeithasol mwyaf yn sgil buddsoddi.

Yn yr un modd, byddwn yn gweld sut mae modd defnyddio buddsoddiadau Llywodraeth y Cynulliad yn yr Ardaloedd Adfywio a sbardunir gan ofynion polisi ehangach i sicrhau'r manteision mwyaf o ran adfywio.

Denu rhagor o fuddsoddi ar gyfer adfywio ledled Cymru

Wrth i gyllidebau grebachu yn y sector cyhoeddus ac mewn mannau eraill, mae'n hollbwysig inni fanteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael i sicrhau gweithgarwch adfywio ledled Cymru a hwnnw'n weithgarwch o safon sy'n effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian.

Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

Datblygwyd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio dan gynllun JESSICA yr Undeb Ewropeaidd. Ffordd newydd o hybu buddsoddi cynaliadwy a thwf mewn ardaloedd trefol yw'r Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Trefol (JESSICA). O dan weithdrefnau newydd, caiff Aelod Wladwriaethau ddewis defnyddio arian grant yr Undeb Ewropeaidd i fuddsoddi arian ad-daladwy mewn prosiectau sy'n rhan o gynllun integredig ar gyfer datblygu trefol cynaliadwy. Darperir y buddsoddiadau hyn, a all fod ar ffurf ecwiti, benthyciadau a/neu warantau, i brosiectau drwy'r Cronfeydd Datblygu Trefol. Byddant yn dod â budd ariannol i'r sector cyhoeddus, drwy ddarparu Cronfa ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau adfywio yn y dyfodol a honno'n gronfa y gellir ei hailgylchu dros gyfnod hir, y tu hwnt i gyfnod y Rhaglen Cydgyfeirio.

Sicrhau'r potensial adfywio mwyaf yn sgil pob gwariant cyfalaf a refeniw

Bydd adfywio ffisegol yn digwydd drwy'r amser ym mhob cwr o Gymru. Gellir a dylid gweld unrhyw raglen gyfalaf yng ngoleuni'r canlyniadau ehangach - y tu hwnt i'w phwrpas gwreiddiol - y gall eu sicrhau ar gyfer y gymuned leol. Mae'r dull hwn yn elfen hanfodol yn *Adfywio Economaidd*: *cyfeiriad newydd.* Dylid cysylltu'r canlyniadau â thair colofn datblygu cynaliadwy:

- Economaidd – er enghraifft, darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.
- Cymdeithasol - er enghraifft, gwella hyder y cyhoedd a chydlyniant cymunedol mewn ardal.
- Amgylcheddol - er enghraifft gwarchod neu greu ased naturiol at ddefnydd y gymuned, neu gynorthwyo pobl i leihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio llai o ynni i fyw, i deithio ac i weithio.

Ein huchelgais yw bod yr holl fuddsoddi cyfalaf yn cael ei fuddsoddi mewn modd sy'n sicrhau ei botensial i adfywio.

4. Y camau nesaf

Er mwyn adeiladu ar ein dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i bennu'r meini prawf a'r systemau ar gyfer penderfynu ynglŷn â buddsoddi a chyflawni yn y dyfodol ar sail yr egwyddorion a restrir uchod. Credwn fod cydweithredu'n barhaus fel hyn yn fwy priodol nag ymgynghori'n ffurfiol, gan y byddai hynny'n pennu amserlen artiffisial ar gyfer cyflwyno sylwadau, ac yn tarfu ar y ddeialog adeiladol, ryngweithiol rydym wedi rhoi cychwyn arni.

Panel Adfywio Cenedlaethol

Cyfrifoldeb Panel Adfywio Cenedlaethol newydd fydd y dasg hon. Bydd ganddo gadeirydd annibynnol, a daw'r aelodau o blith ein partneriaid. Fe'i darperir o fewn yr adnoddau sydd ar gael eisoes. Byddwn ni'r Llywodraeth yn bartner cydradd ar y Panel a ni fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth.

Rhoddir nifer o gyfrifoldebau a thasgau i'r Panel, gan gynnwys:

- Darparu trosolwg strategol o'r Ardaloedd Adfywio presennol o safbwynt cenedlaethol.
- Datblygu'r egwyddorion sydd yn y Fframwaith hwn a chynnig cyngor i Weinidogion ynglŷn â methodoleg glir y cytunir arni ar gyfer buddsoddi mewn Ardaloedd Adfywio yn y dyfodol.
- Cynghori ynglŷn â gwerthuso a dysgu gan ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau y cytunir arnynt ar gyfer pobl sy'n byw mewn Ardaloedd Adfywio.
- Cyfrannu at ein gwaith trawsbynciol ehangach ar dlodi.

Rhannu'r arferion gorau

Seilir gwaith y Panel ar yr adborth gan Grwpiau Ymarferwyr Adfywio a sefydlir gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru. Bydd hyn yn ymestyn yr ystod o brofiad ac arbenigedd sy'n bwydo i'n dull newydd o weithio. Seilir y grwpiau ar y tair thema drawsbynciol a byddant yn hybu trafodaeth, rhannu'r arferion gorau a gwell sgiliau adfywio drwy'r proffesiynau a'r cyrff sy'n cyfrannu at y broses adfywio. I gael gwybod rhagor, ewch i www.regenwales.org.

Mae'r grwpiau'n rhan o ymdrech ehangach, dan arweiniad Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, i hyrwyddo sgiliau adfywio, yn enwedig ar draws disgyblaethau, yng Nghymru.

Mesur llwyddiant

Mae angen arfarnu, monitro a gwerthuso cadarn i sicrhau ein bod yn gwireddu ein cydamcanion ac yn dysgu sut mae sicrhau gwell canlyniadau yn yr Ardaloedd Adfywio. Dylai'r meini prawf ar gyfer llwyddiant adlewyrchu'r canlyniadau cyffredinol rydym yn ceisio'u cyflawni, gan gynnwys manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- Byddwn yn cefnogi dull gwerthuso sy'n seiliedig ar ganlyniadau i gefnogi dysgu ac arloesi parhaus, ac i ddechrau, bydd y gwaith hwn yn: comisiynu gwerthusiad o ddull o weithio'r Ardaloedd Adfywio, gan ganolbwyntio ar Flaenau'r Cymoedd.
- Adolygu'r cyflawni - gan gynnwys arfarnu a monitro - yn yr Ardaloedd Adfywio presennol i ganfod yr arferion gorau sydd ar waith ledled Cymru a'u gweithredu'n gyson.

Rhagor o wybodaeth

I gael gwybod rhagor am yr Ardaloedd Adfywio presennol neu i gysylltu â ni, ewch i www.wales.gov.uk/regeneration neu regeneration.areas@wales.gsi.gov.uk.

Atodiad 1: Astudiaethau Achos o'r Ardaloedd Adfywio

Astudiaeth achos 1 - Arfordir Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru ym mis Hydref 2008. Mae llawer o Arfordir Gogledd Cymru'n dioddef o broblemau strwythurol ar hyn o bryd a'r rheini'n gysylltiedig ag edwino twristiaeth draddodiadol trefi glan y môr yn yr 1970 au, diwydiant y mae ei gyfraniad at yr economi wedi crebachu wrth i bob blwyddyn fynd heibio. Mae'r Ardal yn ymestyn o Brestatyn yn y dwyrain i Fochdre yn y gorllewin. Mae'n cynnwys, yn bennaf, y cymunedau ar hyd y glannau sydd wedi'u cysylltu gan yr A55, yr A547 ar hyd yr arfordir a phrif reilffordd Gogledd Cymru ac mae'n gartref i oddeutu 100,000 o bobl.

Y weledigaeth ar gyfer yr Ardal yw y bydd, erbyn 2016, yn ardal ffyniannus, ddeniadol a bywiog i fyw ynddi sy'n groesawgar, yn ddiogel ac yn gyfeillgar - lle ac iddo gymeriad unigryw sy'n cefnogi cymunedau cytbwys, parhaol a hunan-hyderus mewn economi leol sy'n llewyrchus ac yn gynaliadwy. Mae chwe amcan craidd:

- Lle i Fyw - mynd i'r afael â thai gwael ym mhob cwr o'r ardal, yn enwedig yn y Rhyl ac ym Mae Colwyn.
- Iechyd a Lles - ymdrechu i sicrhau cyfleusterau a gwasanaethau o safon i gefnogi gweithlu iach.
- Addysg a Sgiliau - gweithio i greu gweithlu sydd wedi'i addysgu'n well ac sy'n fwy economaidd weithgar.
- Cydlyniant Cymunedol - annog a chefnogi datblygu cymunedau bywiog a hunan-hyderus.
- Amgylchedd a Thrafnidiaeth - creu amgylchedd sydd wedi'i reoli'n dda lle bydd pobl am dreulio amser.
- Economi Amrywiol a Chynaliadwy - gwella delwedd yr Ardal ac annog a chynorthwyo twf yn y sector preifat a'r sector mentrau cymdeithasol.

Dyma'r hyn y llwyddwyd i'w wneud hyd yn hyn:

- *Caffael eiddo ac uwchgynllunio ar gyfer Gorllewin y Rhyl a Bae Colwyn. Yn y ddwy ardal, mae cyflwr y tai'n wael, mae diffyg mwynderau cyhoeddus a lefelau uchel o droseddu.* Drwy gydweithio ag awdurdodau lleol ac â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, llwyddwyd i gaffael safleoedd o werth strategol a gostwng nifer y Tai Amlfeddiannaeth. Yn ystod 2009/10, prynwyd 50 eiddo a chyfanswm cost hynny oedd £5.5m. Bydd yr uwchgynlluniau ar gyfer y trefi'n tywys yr hyn a fydd yn digwydd i'r eiddo yn y dyfodol. Mae tri eiddo gwag eisoes wedi'u troi'n dai fforddiadwy ac yn cael eu defnyddio eto.
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r cynllun Cymru Gynhesach. Mae hyn yn broblem arbennig o ddyrys gan fod tai gwael ac aneffeithlon yn draul ar incwm isel. Targedwyd dros 20,000 o gartrefi gan y cynllun yn yr ardaloedd mwyaf di-fraint drwy gynnig pecyn o fesurau insiwleiddio,

adnewyddu systemau gwresogi a chynghori pobl am fudd-daliadau/tariffiau. Drwy ddefnyddio'r arian CERT sydd ar gael drwy'r darparwyr ynni, mae Grant Adfywio Arfordir Gogledd Cymru gwerth £970k wedi denu buddsoddiad preifat ychwanegol o £3.3m ar gyfer prosiect sy'n cynnig mesurau gwerth £4.27m. Yn ystod 2009/10, gosodwyd 1,350 o becynnau insiwleiddio (atig a waliau ceudod), ynghyd ag adnewyddu180 o systemau gwresogi, 20 o'r rheini'n defnyddio technolegau adnewyddadwy. Mae mesurau o'r fath wedi gwneud cartrefi'n llawer mwy o effeithlon o ran ynni ac wedi sicrhau bod incwm yr aelwyd gymaint ag y gall fod. Drwyddo draw, mae'r cynllun wedi arbed 28,805 tunnell o garbon mewn oes, ac amcangyfrifir iddo arbed £198,927 ar filiau tanwydd blynyddol.

- Prosiect Canolfan Dysgu'r Bae sy'n werth £1.4m dan arweiniad Coleg Llandrillo. Fe'i lleolir ym Mae Colwyn ac mae'r cyfleuster yn cynnwys uned Astudiaethau Byddardod a chyfleusterau TG o'r math diweddaraf un. Mae'r Ganolfan yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Learn Direct, Cynorthwywyr Dosbarth, Astudiaethau Byddardod, TG a chyrsiau cyn-alwedigaethol eraill. Mae'r Ganolfan yn ganolbwynt dysgu a gwybodaeth yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Bae Colwyn, ac mae'n cynnig cyngor, gwybodaeth, cymorth a dysgu i gynorthwyo pobl i wella'u sgiliau, eu lles a'u rhagolygon am waith.

Astudiaeth achos 2 - Abertawe

Dynodwyd Ardal Adfywio Abertawe yn 2009, ac mae'n cynnwys 18 o'r 19 Ardal Cynnyrch Ehangach lefel is sydd yng nghategori'r 10% uchaf ar gyfer amddifadedd cyffredinol fel y'i gwelir ym Mynegai Amlamddifadedd Cymru 2008, yn ogystal ag wyth o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Y weledigaeth ar gyfer yr ardal yw hyn: Erbyn 2016, bydd Abertawe'n ddinas falch, fywiog, uchelgeisiol sydd wrth galon y rhanbarth ehangach, a bydd yn ddinas lle bydd pobl am fyw, gweithio ac ymweld â hi. Bydd yr un mor hyderus ynglŷn â'i dyfodol ag y mae'n falch o'i gorffennol. Buddsoddir mewn pum rhaglen:

- Cymunedau Cydlynol.
- Cynnig Cyfleoedd i Bawb.
- Creu Dinas Ranbarthol gref a bywiog.
- Creu Cyfoeth Cynaliadwy.
- Tai a'r Amgylchedd.

Cefnogir y rhaglenni hyn gan nifer o flaenoriaethau strategol trawsbynciol sy'n gysylltiedig â Thlodi Plant, Cynaliadwyedd, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Daw aelodau'r Bwrdd Ardal Adfywio o gyrff sy'n gallu cynorthwyo'n uniongyrchol i ddylanwadu ar fynegeion amddifadedd, gan gynnwys yr awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM, Y Ganolfan Byd Gwaith, Heddlu De Cymru, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, Coleg Gŵyr Abertawe, CIH Cymru, Llywodraeth y Cynulliad (APADGOS, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a'r

Gyfarwyddiaeth Cymunedau) ac o'r sector preifat, Cadeiryddion Partneriaeth Canol y Ddinas a Phartneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe.

Dyma'r hyn y llwyddwyd i'w wneud hyd yn hyn:

- Darparu arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Abertawe: *Dinas y Glannau - Sicrhau Adfywio Cynaliadwy,* buddsoddiad gwerth £38m, gan ddenu arian o Ewrop, cronfeydd awdurdodau lleol a buddsoddiad gan y sector preifat. Mae 5 llinyn craidd i'r rhaglen: datblygu eiddo, gwella tir y cyhoedd, Rhodfa Ewrop, y Rhaglen Gwella Adeiladau ac Adfywio'r Glannau.
- Ymrwymo dros £560,000 i wella Gorsaf Reilffordd Abertawe, fel rhan o gynllun gwerth £7.5m a fydd yn darparu gwell mynedfeydd, peiriant twll yn y wal di-dâl, man ymgynnull, canopïau allanol, ystafelloedd aros, canolfan deithio, cyfleusterau manwerthu a lluniaeth yn ogystal â gwell systemau gwybodaeth i deithwyr, teledu cylch-cyfyng a goleuadau. Mae cydweithio fel hyn â Network Rail a phartneriaid eraill wedi arwain yn uniongyrchol at y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd a Mwy drwy Gymru.
- Buddsoddi £300,000 i hwyluso dymchwel, clirio safleoedd a gwneud gwaith ar ôl i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Tai'r Glannau brynu nifer o eiddo. Mae'r gwaith hwn wedi galluogi cychwyn ar brosiect Pentref Trefol y Stryd Fawr. Wrth fuddsoddi £600,000 arall yn yr Ardal Adfywio llwyddwyd i ddechrau adeiladu cynllun Cam 1b ar y safle, cynllun sy'n werth £6 miliwn a'i du blaen yn wynebu'r stryd fawr Bydd hyn yn golygu bod modd darparu unedau manwerthu a swyddfeydd newydd mewn ardal yng nghanol dinas Abertawe lle mae angen buddsoddi mawr a disgwylir cwblhau 'gwaith cragen a gosodiadau' yn y flwyddyn ariannol hon. Wrth glirio'r safle, llwyddwyd hefyd i roi cychwyn ar adeiladu prosiect adeilad preswyl y Strand. Yn sgil hyn, cafwyd Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth y Cynulliad i ddechrau ar y gwaith adeiladu, gan ddenu buddsoddiad ychwanegol a oedd yn werth rhyw £6m.

Llwyddiannau y tu hwnt i'r Ardaloedd Adfywio

Mae timau'r Ardaloedd Adfywio wedi cynorthwyo i ddatblygu a sicrhau arian ar gyfer prosiectau sydd ag arwyddocâd ehangach y tu hwnt i Ardal Adfywio unigol, a hynny naill ai'n fwriadol neu ei fod wedi digwydd yn organig.

Nid prosiectau seiliedig ar ardal yw'r rhain; gellid eu lledaenu drwy Gymru. Byddwn yn ceisio ymestyn y prosiectau hyn, neu'r dulliau a ddefnyddir ganddynt mor eang ag y bo modd, ar yr amod bod eu hangen a bod arian ar gael. Nid yw'r adnoddau'n ddiderfyn. Felly byddwn yn eu targedu drwy sicrhau blaenoriaeth i'r Ardaloedd Adfywio, i'r Ardaloedd Adnewyddu Tai ac i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Arbed

Rhaglen ar raddfa fawr yw rhaglen arbed a'i nod yw ôl-wella ein hen stoc dai drwy ddefnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni a meicrogynhyrchu. I ddechrau, roedd hyn yn rhan o gyfres o fesurau i gynorthwyo i wireddu Parth Carbon Isel Blaenau'r Cymoedd, ac mae'n cael ei ledaenu yn awr ar draws yr holl Ardaloedd Adfywio. Mae

hyn o gymorth i gyrraedd y targed lleihau CO2, sef 3%, yn ogystal ag i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ein cymunedau llai cefnog.

Buddsoddir oddeutu £30m o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth y Cynulliad yn y rhaglen Arbed. Gallai arian cyfatebol o ffynonellau eraill greu pwrs gwerth £350m dros 3 blynedd, gan gynnwys grant o £1m gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Wrth fwrw ymlaen, bydd cam 2 yn manteisio ar gronfeydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop er mwyn ymestyn y rhaglen Arbed dros gyfnod o 3-5 mlynedd.

Mae'r rhaglen Arbed yn cynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai; mae rhagor o waith ar y gweill gyda chyflenwyr i alluogi busnesau sydd â'u canolfan yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd y mae'r rhaglen yn eu cynnig.

Mae cyfernodau llafur y trysorlys yn amcangyfrif, yn ôl prisiau 2009, bod 16-32 o flynyddoedd-person o gyflogaeth yn cael eu creu am bob £1m a werir ar gynlluniau ôl-wella tai. Mae Arbed hefyd yn golygu gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod y sgiliau y mae eu hangen i wneud y gwaith hwn ar gael er mwyn i bobl leol gael budd o'r buddsoddi.

Paru Swyddi (Blaenau'r Cymoedd)

Ariennir Paru Swyddi gan Lywodraeth y Cynulliad a chan arian Ewrop gyda buddsoddiad ychwanegol gan Gronfa Ardaloedd Di-fraint Adran Gwaith a Phensiynau'r Deyrnas Unedig pan ddynodwyd yr ardal yn un o'r cynlluniau braenaru ar gyfer creu Strategaeth Dinas yn 2006. Nod y rhaglen yw cynorthwyo pobl ddi-waith yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd i gael gwaith y gellir ei gynnal. Mae ei strwythur darparu gweithredol yn cynnig trefn recriwtio agored ac yna amrywiaeth o wahanol fathau o gymorth ar ffurf Cynghorydd Personol, a chynlluniau gweithredu i gleientiaid yn gefn i hynny sy'n eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol. Un o'r prif egwyddorion oedd rhoi cynnig cyffredinol i bawb oedd yn ddi-waith yn yr ardal gan sicrhau bod y cymorth mwyaf dwys yn cael ei neilltuo'n unig ar gyfer y rheini y mae angen y cymorth hwnnw arnynt. Mae'r model Paru Swyddi'n cynnwys pum cam:

- Meithrin cysylltiad - wrth i asiantaethau partner gyfeirio pobl neu drwy gyfrwng gwaith allgymorth rhagweithiol yn y gymuned.
- Diagnostig - asesu anghenion y cleient a'r hyn sy'n ei rwystro rhag gweithio.
- Cam datblygu - lle'r eir i'r afael ag anghenion cleientiaid a gall hyn gynnwys hyfforddiant neu gyfeirio at sefydliadau partner i gynorthwyo cleientiaid sy'n wynebu rhwystrau penodol. Ar gyfer unigolion sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf difrifol, gall y cam hwn gynnwys eu cyfeirio at y rhaglen Llwybrau Cyflogaeth (sydd hefyd yn cynnwys lleoliad gyda chyflogwr ac sy'n gorgyffwrdd â cham pedwar), rhaglen gan gorff cyswllt y farchnad lafur sy'n rhoi rhwng chwe mis ac un mis ar ddeg o brofiad gwaith (gyda chyflog) i'r sawl sy'n cymryd rhan (gweler rhagor o wybodaeth isod).
- Lleoliad.
- Cymorth yn y gwaith.

Mae tîm paru swyddi ar gael ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol ar draws Blaenau'r Cymoedd Mae'r timau hyn wedi meithrin cysylltiad â mwy na 7,100 o bobl ddi-waith rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2010. Mae hyn yn fwy nag 11% o'r holl bobl ddi-waith ym Mlaenau'r Cymoedd ac yn rhagori ar y targed gwreiddiol, sef cysylltu â 7,000 o unigolion erbyn mis Mawrth 2010.

Wrth werthuso'r rhaglen yn annibynnol yn ddiweddar, tynnwyd sylw at berfformiad clodwiw Paru Swyddi:

- Rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2009 y llwyddwyd i gael swydd i 66%, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yn y DU.
- O ran llwyddo i gadw pobl mewn gwaith, 70% yw'r gyfradd ar ôl 17 wythnos, 57% ar ôl 34 wythnos a 51% ar ôl 52 wythnos. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â'r ffigurau cyfartalog cenedlaethol sydd ar gael ar gyfer rhaglenni'r Parthau Cyflogaeth a'r Fargen Newydd.
- Amcangyfrifir bod Paru Swyddi wedi arbed dros £10.8 miliwn o gostau i'r Trysorlys yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen - ac nid yw hynny'n cynnwys yr arbedion ehangach ar gostau yn sgil gwella iechyd a lles oherwydd bod pobl mewn gwaith nac ychwaith bod pobl yn llai tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu droseddu.
- Cost fesul swydd y rhaglen Paru Swyddi (mynd i gyflogaeth neu hunangyflogaeth) yw £2,959. Pan eithrir cydran y Llwybrau Cyflogaeth, mae'r ffigur hwn yn gostwng i ryw £2,168. Mae hyn yn unol â'r rhaglenni mwyaf cost effeithiol. Mae gosod unigolyn mewn swydd y gellir ei chynnal yn costio llai nag £800 i'r Adran Gwaith a Phensiynau, drwy gyfrwng yr Arian i Ardaloedd Di-Fraint.

Datblygir Llwybrau Cyflogaeth pan fydd angen sgil benodol o fewn sector busnes. Mae'n bont i bobl sy'n wynebu sawl rhwystr sy'n eu hatal rhag gweithio, ac yn eu cynorthwyo i symud o anweithgarwch i waith. Mae'r Llwybrau Cyflogaeth, sy'n para rhwng 6 ac 11 mis, yn rhoi cyflog a phrofiad gwaith i'r sawl sy'n cymryd rhan wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd a gwella'u sgiliau ar gyfer swydd newydd. Dyma rai o'r meysydd y cynhaliwyd prosiectau Llwybrau Cyflogaeth ynddynt: Gofal Cymdeithasol; Gofal Plant - Cynorthwyydd Dosbarth; Gweinyddu/Gwasanaeth i Gwsmeriaid; Amgylcheddol/Ynni Adnewyddadwy; ac Adeiladu.

Gellir priodoli llwyddiant Paru Swyddi i'r model pum cam a ddisgrifiwyd uchod. Erbyn hyn, mae gwaith ar y gweill i gynnwys y pum cam hyn yn y rhaglenni gwaith ym mhob Ardal Adfywio ac ym mhob ardal ddi-fraint arall ledled Cymru. Y bwriad fydd gweithio ochr yn ochr â'r cymorth a ddarperir eisoes ar gyfer rhaglenni gwaith sydd ar gael yn yr ardal er mwyn llenwi'r bwlch os bydd unrhyw gam ar goll yn y broses. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n archwilio'r model Paru Swyddi wrth ddatblygu polisïau yn y Deyrnas Unedig.

i2i

Sefydlwyd i2i i gynghori a chefnogi tenantiaid awdurdodau lleol, staff ac aelodau i'w cynorthwyo i sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru. I gefnogi'r agenda hon a chan gydweithio â'r rhaglen Paru Swyddi, cynhyrchwyd dau becyn 'Medru'. Defnyddir y

cyntaf i wneud recriwtio a hyfforddi wedi'i dargedu yn ofyniad craidd mewn contractau ac mae'r ail yn annog trefn gaffael sy'n hwylus i Fusnesau Bach a Chanolig.

Drwy gael gofynion recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu, llwyddwyd i greu nifer sylweddol o swyddi a chyfleoedd hyfforddi. Mewn astudiaeth annibynnol yn ddiweddar ar 12 sefydliad tai a oedd yn defnyddio Recriwtio a Hyfforddi wedi'u Targedu yn ystod y dirwasgiad, gwelwyd bod 487 o gyfleoedd hyfforddi a chyflogi wedi'u creu. Dangosodd yr ymchwil i lwyddiant y Pecyn Medru 'Flwyddyn yn Ddiweddarach' mai pan fyddai partneriaid megis Paru Swyddi'n cefnogi'r pecyn yr oedd yn gweithio orau.

Dyma rai o'r llwyddiannau a gafwyd lle'r oedd prosiectau tai'n tywys yr adfywio:

- Cymdeithas Tai United Welsh: mae'r gymdeithas wedi'i gwneud yn ofyniad craidd bod eu contractau i gyd yn mynnu bod eu contractwyr yn hyfforddi ac yn cynorthwyo pobl leol i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae wedi ymrwymo drwy ei Strategaeth Gorfforaethol i ddefnyddio contractau caffael a phartneriaethau i sbarduno creu swyddi a hyfforddiant ar draws ystod o lwybrau. Flwyddyn ar ôl lansio'r Pecyn Medru, penododd Cymdeithas Tai United Welsh dros 80 o hyfforddeion gan ddarparu cyflogaeth gynaliadwy a hyfforddiant i lawer o unigolion.
- Cyngor Sir Ynys Môn: gwariwyd £9m ar Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2009 gan ddefnyddio methodoleg y Pecyn Medru yn ei gontractau i greu 48 o swyddi newydd a lleoli 5 hyfforddai amser llawn gyda chontractwyr. Dyfarnwyd 20% o waith Safon Ansawdd Tai Cymru i Lafurlu'r Cyngor ei hun a fydd yn gwella'r tai yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Defnyddiwyd y pecyn cyntaf y tu hwnt i'r maes tai hefyd, er enghraifft gan Ddinas a Sir Abertawe. Cytunodd Cabinet y Cyngor i ddefnyddio'i bwerau lles i gynnwys Cymalau Budd Cymdeithasol yn ei gontractau gyda'r nod o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amddifadedd, drwy ddod â phobl economaidd anweithgar yn ôl i'r farchnad lafur a datblygu llwybrau camu-ymlaen i alluogi'r bobl hyn i symud ymlaen i swyddi sy'n gofyn am well sgiliau ac sy'n cynnig cyflogau uwch. Cyfnewidfa'r Cwadrant, prosiect cludiant gwerth £10m oedd y contract cyntaf i'w roi ar brawf ac mae'n cynnwys cymalau ynglŷn â Recriwtio a Hyfforddi wedi'u targedu a chyflenwi'n lleol.

Y tu allan i Gymru, defnyddiwyd y pecyn cyntaf yn llwyddiannus gan yr Ilex Urban Regeneration Company yn Derry, Gogledd Iwerddon.

Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Byddwn yn dal i gynnal prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd fel rhan o'r gwaith adfywio sy'n cefnogi ein Fframwaith Amgylchedd Cenedlaethol. Mae hwnnw ar waith ar draws a'r tu hwnt i Ardaloedd Adfywio Cymoedd y Gorllewin a Blaenau'r Cymoedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol eithriadol y cymoedd, gan gynorthwyo i

adfywio'r rhanbarth fel man hynod ddymunol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac fel man i ymweld ag ef.

Dechreuodd prosiect Rhaglen Adfywio'r Cymoedd sy'n werth £25m dan arian Cydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ym mis Ebrill 2009 ac mae tri deg a naw o brosiectau seilwaith ac ambarél wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor, a chytundeb llawn i roi pethau ar waith mewn pedwar ar bymtheg. Mae un ar ddeg o'r rhain ar waith eisoes a phedwar wedi'u cwblhau. Cymeradwywyd nifer o brosiectau a digwyddiadau dehongli hefyd. Lluniwyd strategaeth twristiaeth gymunedol ac mae Swyddogion Twristiaeth Cymunedol bellach wedi'u cyflogi. Bwriedir cynnal diwrnod twristiaeth gymunedol y Cymoedd ym mis Hydref 2010.

Gan gydweithio â phartneriaid yng ngwlad Belg a Ffrainc, llwyddwyd i gael gwerth €4.13m ar gyfer prosiect WECAN gan Raglen Interreg IVB Gogledd Orllewin Ewrop dan y thema Cymunedau Cryf a Llewyrchus. Ei nod yw sicrhau seilwaith gwyrdd effeithiol sydd wedi'i gynllunio'n dda i hybu busnesau a chymunedau'r Cymoedd, gan greu gwell llewyrch economaidd a chymdeithasol a chan amddiffyn asedau ein hamgylchedd naturiol.